

CYFNEWIDFA RHEOLAETH CYSWLLT FFERMIO.

Pwllpeiran (Gorllewin Cymru); Moffat (Yr Alban)

Hydref 2019

Sally Davies

Y Cefndir

Mae fy ngŵr a'i deulu'n rhentu tir gan Ystâd Penpont, sydd 3 milltir i'r gorllewin o Aberhonddu. Rydym yn cadw fferm ddefaid mynydd a gwartheg magu draddodiadol.

Mae fy mhrosiect Cyfnewidfa Rheolaeth wedi ei rannu'n ddau hanner:

- 1) Prosiect Penpont
- 2) Cynyddu gwydnwch ein buches wartheg magu.

1. Prosiect Penpont.

Yn dilyn y refferendwm yn 2016 ynglŷn ag aelodaeth y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd, cyfeiriodd y ddogfen ymgynghori a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, "Brexit a'n Tir", at gefnogi ffermwyr am ddarparu nwyddau cyhoeddus. Daeth ein landlord atom i ddweud y byddai'n hoffi gwneud rhywfaint o waith amgylcheddol ar ddarn o dir 200 erw sy'n ymestyn o'r A40 i fyny i Fynydd Illtyd. Mae wedi cynnwys 100 erw o'i goetir ei hun yn y prosiect hefyd.

Roedd ein landlord wedi cael ysbrydoliaeth gan Charles Burrell a'r gwaith yr oedd yntau wedi'i wneud ar Ystâd Castell Knepp ac roedd ganddo syniadau am ddad-ddofi'r safle dynodedig. Roedd hefyd eisiau cynnwys grŵp o bobl ifanc o Action for Volunteers yn y gwaith, sef pobl ifanc sy'n ymchwilio pa waith cadwraeth yr hoffent ei weld ar y darn hwn o dir. Rydym oll wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n gytundeb ffurfiol rhyngom ni ein hunain (y tenantiaid), y landlordiaid ac Action for Volunteers i gydweithio i wireddu gweledigaeth gyffredin. Nid yw hwn yn contract cyfreithiol; mae'n addewid difrifol o ymrwymiad. Rydym wedi mynegi'n ffurfiol ein bod ni'n fodlon ymrwymo gwybodaeth, sgiliau, egni ac adnoddau i'r prosiect. Mae'r datganiad isod yn nodi nod y prosiect.

"Ein gweledigaeth yw bod Prosiect Penpont yn gweithredu fel esiampl o gynhyrchu bwyd cynaliadwy ac adfer natur dan arweiniad ieuenctid yn gydweithredol ar gyfer y Llywodraeth, cyrff anllywodraethol, ffermwyr a rheolwyr tir ledled y Deyrnas Unedig, gan gataleiddio mudiad o bobl ifanc sydd wedi'u grymuso i ddiogelu'r byd naturiol."

Cyn belled ag y mae ein mewnbwn yn y cwestiwn, does gennym ni ddim syniad beth fyddai'r ffordd orau ymlaen, felly, gwnes gais am gyllid gan y Gyfnewidfa Rheolaeth fel bod Dr Mariecia Fraser yn gallu ymweld â'r safle ac fel ein bod ninnau'n gallu ymweld â hi, ym Mhwllpeiran. Roeddem eisiau cael gwybodaeth ganddi er mwyn llunio cynnig. Byddai'r cynnig hwn yn cynnwys yr hyn y byddem yn

ei ystyried fel y ffordd orau ymlaen i ddod â gwelliant mewn bioamrywiaeth, ond byddai hefyd yn ein galluogi ni fel ffermwyr i barhau i ffermio heb ormod o aflonyddwch.

Mae gan Dr Mariecia Fraser gefndir mewn gwyddor anifeiliaid ac ecoleg pori ac mae hi'n arbenigo mewn datblygu a phrofi strategaethau rheoli ar gyfer systemau tir uchel. Mae ei buddiannau ymchwil yn cynnwys: gwahaniaethau rhwng rhywogaethau a bridiau o ran dewis diet ac ymddygiad traflynocol, pori er lles cadwraeth, cyflenwad maetholion o borthiant, allyriadau nwy tŷ gwydr o anifeiliaid sy'n pori a photensial bio-ynni glaswelltir lled-naturiol.

2. Cynyddu gwydnwch ein buches o wartheg magu

Ar hyn o bryd, rydym yn prynu lloeau heffrod o'r diwydiant llaeth fel gwartheg cyfnewid i'n buches fagu. Felly, mae gan y lloeau hyn lawer mwy o ddylanwad Holstein ynddynt nag yr hoffem ei gael. Rydym yn cael problemau gyda chynnal eu cyflwr, mastitis a hirhoedledd. Mae risg ychwanegol i fiolddiogelwch hefyd pan fyddwch yn prynu lloeau i mewn.


Hoffem ddod yn fuches gaeedig a byddem yn hoffi gwneud hynny drwy newid i wartheg Saler. Roeddem wedi prynu rhai heffrod Saler rai blynyddoedd yn ôl ac maen nhw i'w gweld yn ffynnu o fewn ein system. Maen nhw'n lloea'n weddol hawdd i darw Charolais, mae eu lloeau yn ddarbodus ac mae ganddyn nhw fynegai lloea byr. Gwnaethom y penderfyniad i fynd i ymweld â buchesau Saler sefydledig i ddysgu rhagor am y brîd.

Ein rhaglen

Aethom ar ein taith ar Ddydd Mawrth 1 Hydref a chyrraedd Gorsaf Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran i gwrdd â Dr Fraser ac ymweld â'i lleiniau arbrofol.

Wedi i ni gyrraedd, cawsom sgwrs am Brosiect Penpont. Buom yn trafod ein diddordeb mewn gwneud gwaith amgylcheddol ar y safle dynodedig, a sut y gallai'r gwaith fod yn gyfatebol ag adran Nwyddau Cyhoeddus y polisi amaethyddol nesaf gan hefyd ein galluogi ni i barhau i ffermio'n fasnachol a phroffidiol.

Yna aethom i edrych ar y lleiniau arbrofol.



Ffigur 1. Cynllun yn dangos y gwahanol driniaethau yr oedd lleiniau Brignant wedi eu derbyn ym Mhwllpeiran.

Sefydlwyd lleiniau tymor hir Brignant 25 mlynedd yn ôl, pan oedd diddordeb mewn troi porfa gafodd ei gwella yn ôl yn rhywbeth mwy naturiol. Dyma'r gwahanol driniaethau a roddwyd i'r lleiniau: pori yn unig, lladd gwair yn unig a lladd gwair a phori dilynol. Rhoddwyd calch ar hanner yr holl driniaethau gwahanol, ac ni chafodd yr hanner arall galch o gwbl. Lladdwyd y gwair ar ôl 12 Gorffennaf. Ni ychwanegwyd unrhyw Nitrogen (N), Ffosfforws (P) na Photasiwm (K). Cafodd y llain gymharu ei thrin fel arfer gyda thorri, pori dilynol a rhoi N, P, K a chalc fel y bo'r gofyn.

Roedd rhywogaethau glaswelltir yn dominyddu'r llain gymharu ond roedd y llain oedd wedi'i chalchu a'i thorri ar ôl 12 Gorffennaf yn dangos llai o dyfiant glaswelltir a mwy o blanhigion dail llydan a blodau gwyllt. O'r arolygon a wnaed ar y lleiniau hyn, gellir gweld bod yr amrywiaeth ehangach mewn planhigion wedi arwain at gynnydd mewn pryfed, gwllithod a llyffantod.

Cafodd llain arall ei gadael am 25 mlynedd heb unrhyw driniaeth na phori. Yr hyn oedd ar ôl oedd amrywiaeth wael mewn planhigion gyda mwsogl a maeswellt penwyn yn dominyddu, ond er bod yr amrywiaeth flodeuol yn wael, mae'n gynefin gwych i famaliaid bach fel llygod neu lygod y gwair y gall adar fwydo arnynt. Wrth edrych ymhell ar draws y gwahanol leiniau, gallem weld ymateb mawr i'r gwahanol driniaethau. Os ydym eisieu sicrhau'r fioamrywiaeth orau mewn ardal mae angen mwy na dim ond un driniaeth, mae angen cymysgedd h.y. ardal wedi ei phori a'i thorri, am fod pob ardal wahanol yn darparu cartref i rywbeth sy'n ein galluogi ni i sicrhau'r fioamrywiaeth fwyaf yn yr ardal.

Roedd yr ymweliad â Dr Fraser yn ddefnyddiol iawn oherwydd roedd hi'n amlwg wrth sôn am ein safle prosiect ni, y byddai gennym well siawns o gynyddu bioamrywiaeth os byddem yn trin gwahanol rannau o'r tir yn wahanol. Efallai y gallem adael ardal i gael ei phori neu ei thorri tan ar ôl 12 Gorffennaf a gosod ffens o amgylch ardal gerllaw'r goedwig heb unrhyw bori neu driniaethau i greu cynefin i famaliaid bychan. Byddai gwahanol driniaethau'n digwydd yn y cyfamser i ardaloedd

eraill. I ni, mae hyn yn ymddangos yn ffordd well ymlaen nag un dull yn unig o ddad-ddwysáu neu ddad-ddofi.

O Bwllpeiran, aethom tua'r gogledd i Gaerliwelydd.

Ar ddydd Mercher 2 Hydref, aethom tua'r gogledd eto i Moffat lle aethom i ymweld ag Alisdair Davidson ar Fferm Poldean. Mae ganddo fuches o 340 o wartheg Saler. Mae ganddo nifer fechan sy'n ffurfio buches gnewyllyn o Salers pedigri y mae wedyn yn bridio ei heffrod ohoni ar gyfer ei fuches fasnachol. Rhoddir y fuches fasnachol i darw Charolais. Mae'n prynu ei deirw yn syth o Ffrainc. Mae'n well ganddo darw bach, mwy cyhyrog i'w roi gyda'i wartheg. Mae ei wartheg i gyd yn lloea o fewn cyfnod o 6 wythnos. Mae'r lloea i gyd yr un lliw brown euraid ac, am y rheswm hwnnw a'r cyfnod lloea tynn, maen nhw'n hawdd iawn eu cyfateb pan ddaw hi'n amser eu gwerthu. O'r 340 o wartheg a aned yno'r gwanwyn diwethaf, cyffyrddodd Alisdair â naw. Roedd tri o'r rheiny oherwydd genedigaeth Gesaraidd ac roedd yn rhaid iddo roi chwech ar y fuwch i sugno. Mae natur dawel gan y gwartheg ac nid yw'n cael unrhyw broblemau â nhw pan fydd raid iddo ef neu un o'i ddau weithiwr rhan amser weithio gyda nhw. Roedd y gwartheg i'w gweld mewn cyflwr hyfryd ac roeddem yn synnu mor debyg i'w gilydd oedd y lloea. Dywedodd ei fod yn gwerthu'r gwartheg yn 13 mlwydd oed! Rydyn ni'n ffodus ar hyn o bryd os cawn ni fuwch sy'n para cyhyd â hynny heb fynd yn hesb neu ddiodef o fastitis.

Roeddem yn ddiolchgar iawn i Alisdair am roi ei brynhawn inni i ddangos ei fferm i ni a rhannu ei brofiadau o fagu a bridio gwartheg Saler. Mae'n gefnogwr mawr i'r cyfnewid gwybodaeth, a dyma'r rheswm mae'n debyg pam y mwynhaodd ei gyfnod fel fferm fonitro yn yr Alban.

Ar ôl aros dros nos yn Moffat ar y nos Fercher, aethom y bore wedyn, dydd Iau Hydref 3, tua'r dwyrain i ardal Melrose i ymweld â'r teulu Livesey a'u buches Cleuchhead o wartheg Saler. Maen nhw wedi cael llawer o lwyddiant mewn sioeau ac yn y farchnad. Maen nhw wedi bod yn bridio gwartheg Saler am fwy na 25 mlynedd ar ôl dod â rhai o'r mewforion cyntaf i'r wlad. Maen nhw'n rhedeg buches o 80 buwch pedigri ochr yn ochr â rhai masnachol y mae rhwng 50% a 95% ohonynt yn wartheg Saler. Gwelsom rai o'r teirw a'r heffrod y byddent yn eu gwerthu ym Marchnad Castle Douglas.

Y Camau Nesaf

1. Prosiect Penpont.

Wrth symud ymlaen, bydd yr holl bartïon, y landlord, ni, y tenantiaid a'r bobl ifanc o Action for Volunteers yn edrych ar bedwar cwestiwn allweddol am y tir sy'n rhan o Brosiect Penpont.

- a) Beth oedd yno?
Edrych ar gofnodion hanesyddol a gofyn i denantiaid blaenorol sut cafodd y tir ei reoli flynyddoedd yn ôl.
- b) Beth sydd yno?
Edrych ar yr arferion cyfredol a gwneud arolygon gwaelodlin o fflora a ffawna.
- c) Beth allai fod yno?
Edrych ar hyn gyda chymorth gan ymgynghorwyr arbenigol.
- d) Beth ddylai fod yno?
Penderfyniadau mawrion i gael eu gwneud wrth symud ymlaen.

Bydd Action for Volunteers yn ymweld â'r safle tua diwedd mis Chwefror. Byddwn, gobeithio, yn trafod cwestiynau a a b uchod.

2. Buches wartheg magu

Ers mynd i'r Alban ar daith y Gyfnewidfa Rheolaeth rydym wedi prynu 6 heffer ac 1 tarw gan y teulu Livesy ym Marchnad Castle Douglas. Bydd y tarw Saler yn cael ei roi ar yr heffrod Saler a rhai gwartheg addas eraill a gobeithio y byddwn yn raddol amnewid ein holl wartheg croes llaeth am Salers. Mae hyn yn mynd i gymryd amser wrth gwrs a byddwn yn gorfod ymdopi ag effaith y lloeau tarw Saler, ond teimlwn fod hyn oll werth yr ymdrech er mwyn cael buddion buches gaeedig.

Negeseuon allweddol

Beth yw Nwyddau Cyhoeddus a phwy sy'n penderfynu? Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw syniad sut un fydd y polisi amaethyddol nesaf, ond os yw cynyddu bioamrywiaeth yn cael ei ystyried o fudd i'r cyhoedd yna, yn dilyn ein hymweliad â Dr Fraser, rydym wedi gallu ffurfio cynnig y byddwn yn ei gyflwyno i'r Prosiect Penpoint. Yn hytrach na chael dull cyffredinol o bori estynedig heb unrhyw fewnbwn (dad-ddofi), rydym yn teimlo y byddai'n well cael nifer o wahanol ddulliau ar draws y tir ac ychwanegu coetir o bosib i rannau o'r tir sy'n serth ac anhylaw.

Rhwng TB a'r agenda gwrth-gig a ffactorau eraill, mae'n anodd iawn gwneud elw gyda buchesau gwartheg magu. Rydym yn credu ac yn gobeithio y bydd ceisio anelu am fuches gaeedig yn cynyddu iechyd a phroffidioldeb ein buches. O'r hyn yr ydym wedi ei weld ar ein Cyfnewidfa Rheolaeth, rydym yn gobeithio y bydd hirhoedledd ein gwartheg yn cynyddu, y byddent yn lloea'n rhwydd, yn cynhyrchu lloeau darbodus ac yn cymryd eu colostrwm cyntaf yn gyflym ac y bydd y gwartheg wedyn yn dychwelyd at y tarw'n gyflym.